





RHEOLAU COVID-19

Parchwch ymbellhau cymdeithasol drwy gydol eich ymweliad.



Defnyddiwch orsafoedd hylendid y safle drwy gydol eich ymweliad.

Dilynwch y wybodaeth a chanllawiau sydd wedi darparu ar yr arwyddion o amgylch y safle.

1. **Canolfan Ymwelwyr a Chaffi**
2. **Siop**
3. **Toiledau**
4. **Tipi Gweithgareddau**
5. **Lle chwarae a Safle Picnic** - parchwch reolau ymbellhau cymdeithasol.
6. **Llwybr Troednoeth** - Tynnwch eich sgidie' a mwynhewch amryw o ddeunyddiau naturiol dan eich traed.
7. **Cwch Holgar** - Byddai cychod tebyg i hon wedi cael eu defnyddio yn yr Oes Efydd i gludo nwyddau.
8. **Tarddiant** - Byddai ardaloedd o ddŵr naturiol yn cael eu cyfri yn sanctaidd i genhedloedd yr oes Haearn. Gwelwch roddion y pentrefwyr.
9. **Llain y Casglwr** - O fis Mai tan fis Awst mae'r ardal yma yn llawn o flodau gwyllt yn blodeuo sydd yn helpu ein poblogaeth o bryfed peillio. Mae gan y llain yma blanhigion defnyddiol am y carthwr Oes Haearn a Rhufeinig fel danhadlen, erwain, mintys, mefus gwyllt, glaslys, llin, wermod, Eirinllys a ffenigl. PEIDIWCH Â BWYTA'R PLANHIGION.
10. **Parc y Defaid** - Dewch i gyfarfod y defaid Soay. Defaid cynhenid fel hyn byddai wedi bodoli ar draws y Deyrnas Unedig yn ystod yr oes Haearn. Yn ddefnyddiol am ei gwlan, cig a'i llaeth. (Ebrill - Hydref).
11. **Twlc y Moch** - Mae nhw'n groesad rhwng Baedd Gwyllt a mochyn Tamworth. (Ebrill - Hydref). PEIDIWCH Â BWYDO'R ANIFEILIAID.
12. **Chevaux-de Frise** - Mae'r cerrig yma yn amgylchynu ochor Ogleddol y gaer. Amddiffyn y pentref yw eu prif bwrpas, drwy wneud hi'n anodd i geffylau a rhyfelwyr gyrraedd y pentref.

13. **Cychod Gwenyn** - Mae cefn y cae hwn yn gartref i bymtheg o gychod Gwenyn, mae'r mêl blasus sy'n cael ei greu yma cael ei werthu yn ein siop.
14. **Porth a'r Rhagfuriau** - mae gan y Pentref amddiffyniad naturiol drwy gael ei osod ar ben bryn, serch hyn adeiladodd y pentrefwyr oes Haearn ragfuriau tal a ffosydd dwfn i sicrhau amddiffyniad cadarn. Adeiladwyd porth moethus gyda 4 cyntedd i'r milwyr. Yn anffodus mae'r porth ar gau oherwydd mae'n cael ei ail adeiladu.
15. **Tŷ'r Pennaeth** - Y Tŷ mwyaf a ddarganfuwyd adeg y cloddio, mae hefyd mewn man blaengar. Cafodd y Tŷ ei ail-adeiladu yn 2000, ynddo ceir replica o ddodrefn ac arteffactau a ddarganfuwyd ar draws Cymru.
16. **Wal Gerrig wreiddiol** - Mae'r wal hon yn rhan o'r amddiffyniad gwreiddiol a dros 2000 blwydd oes.
17. **Tŷ Cyfarfod** - Yn y tŷ yma byddair pentref yn cyd-gwrdd i gael eu diddanu gan y bardd, derbyn cyfarwyddiadau wrth y derwydd neu'r Pennaeth, dadlau am faterion gwahanol neu gymdeithasu!
18. **Tŷ Coginio** - canolbwynt coginio'r pentref lle byddai'r cogydd yn byw. Tŷ syml heb foethusrwydd tŷ'r Pennaeth ond eto yn gyffyrddus.
19. **Man arddangos allanol**
20. **Yr Efail** - Byddai gofaint teithiol yn cael eu croesawi i'r pentref i drwsio arfau, offer a chreu adnoddau newydd allan o Haearn.
21. **Ydloffft** - Cafodd nifer o adeiladau tebyg ei datgelu wrth gloddio'r safle. Eu pwrpas oedd storio grawn yn ddiogel or tir gwlyb ar tywydd Gwlyb Cymreig.
22. **Coedwig** - Yma yn y goedwig hynafol ceir yr holl ddeunyddiau oedd angen ar y pentrefwyr i oroesi. Heddiw cadwraeth yw'r brif nod wrth warchod beio amrywiaeth y coetir.

CASTELL HENLLYS



Pentref Oes Haearn Castell Henllys
Ger Eglwyswrw, SA41 3UR
01239 891319 www.castellhenllys.com



Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast
National Park